Nodiadau Cefndirol

Pwrpas a chynnwys y datganiad hwn

Yn y datganiad hwn, rydyn ni'n cyflwyno data ar nifer y trefniadau mynediad cymeradwy ym mhob blwyddyn academaidd a nifer y ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu ym mhob cyfres haf ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru.

Mae Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru yn nodi bod "Rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Cyfraith Cydraddoldeb mewn perthynas â phob cymhwyster a ddarperir ganddo." Mae'r datganiad hwn yn cyhoeddi data ar addasiadau rhesymol sy'n cael eu gwneud ar gyfer ymgeiswyr sy'n anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010.

Oherwydd gwahaniaethau o ran casglu data, mae ffigurau ar gyfer papurau wedi'u haddasu yn cael eu cyflwyno ar wahân i fathau eraill o drefniadau mynediad.

Trefniadau Mynediad

Trefniadau mynediad yw'r darpariaethau sy'n cael eu gwneud ar gyfer myfyrwyr, sy'n cael eu cytuno cyn sefyll asesiad, i sicrhau eu bod yn cael eu hasesu'n ddilys ac nad ydyn nhw o dan anfantais annheg oherwydd anabledd, salwch/anaf dros dro neu os nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Ni ddylai'r rhain gael eu cymysgu ag ystyriaeth arbennig, sef addasiadau ar ôl yr arholiad i farciau myfyrwyr nad ydyn nhw wedi gallu dangos eu gallu mewn asesiad oherwydd amgylchiadau eithriadol fel profedigaeth adeg yr asesiad.

Gall unrhyw fyfyrwyr sy'n sefyll asesiadau TGAU, UG neu Safon Uwch sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd cyrff dyfarnu gael trefniant mynediad. Efallai y bydd angen mwy nag un math o drefniant mynediad ar fyfyrwyr unigol. Mae'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yn cyhoeddi dogfen ganllaw flynyddol sy'n nodi'r trefniadau safonol y gall canolfannau arholi ofyn byrddau amdanynt a'r meini prawf cymhwysedd a thystiolaeth berthnasol. Er y gellir gofyn am fathau eraill o drefniant heb angen cymeradwyaeth byrddau arholi, mae'r datganiad hwn ond yn ymdrin â threfniadau sy'n cael eu caniatáu drwy system Trefniadau Mynediad Ar-lein y CGC (fel y nodir yng nghanllawiau JCQ).

Yn ôl Canllawiau JCQ, unwaith y bydd yn cael ei ganiatáu, bydd trefniant yn berthnasol am hyd at 26 mis, er y bydd ceisiadau ar sail amodau dros dro yn para am un gyfres arholiadau yn unig. Felly, bydd rhai trefniadau a gymeradwywyd cyn blwyddyn academaidd yn parhau i fod yn weithredol ond ni fydd yn cyfrannu at y

ffigyrau a gyflwynir ar gyfer y flwyddyn honno. Dim ond unwaith y bydd trefniadau sy'n ymdrin â sawl cyfres arholiad yn cael eu cyfrif. Mae'n rhaid i unrhyw drefniadau sydd ar waith ar gyfer 25% o amser ychwanegol, darllenwyr cyfrifiadurol neu ysgrifenyddion ar gyfer TGAU gael eu hailgyflwyno pan fydd y myfyrwyr yn sefyll arholiadau UG neu Safon Uwch. Mae'r ailgyflwyniadau hyn yn ymddangos yn y data fel ceisiadau newydd am drefniadau mynediad. Wrth ddehongli newidiadau yn yr ystadegau hyn, dylid ystyried y posibilrwydd o newidiadau i arferion diagnosis o fewn canolfannau.

Papurau cwestiynau wedi'u haddasu

Yn wahanol i drefniadau mynediad, mae ceisiadau am bapur wedi'i addasu yn cael eu gwneud ar gyfer pob papur arholiad unigol. Gall ymgeisydd unigol ofyn am nifer o bapurau wedi'u haddasu mewn un gyfres arholiadau.
Mae canolfannau'n gwneud ceisiadau am bapurau cwestiynau wedi'u haddasu cyn cyfres arholiadau penodol. Mae papurau wedi'u haddasu yn cael eu paratoi'n unigol ar gyfer ymgeiswyr y mae trefniadau mynediad eraill yn anaddas ar eu cyfer. Mae'r papurau hyn yn caniatáu i ymgeiswyr sydd ag amrywiaeth o namau ar y golwg neu anhwylderau deall iaith sylweddol ddangos eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.
Dyma'r mathau o bapurau wedi'u haddasu y gellir gofyn amdanynt:

- print trwm 18 pwynt wedi'i addasu
- print trwm 24 pwynt wedi'i addasu
- papurau Braille a diagramau cyffwrdd gyda labeli Braille
- iaith addasedig
- papurau cwestiynau electronig nad ydynt yn rhyngweithiol
- diagramau cyffwrdd gyda labeli print
- trawsgrifiad o brawf gwrando neu fideo.

Ceir hefyd nifer fach o geisiadau nad ydynt yn dod o dan y prif gategorïau a gyhoeddwyd gan y JCQ. Mae'r rhain yn cael eu rhoi o dan "fformatau eraill" yn y data a'r tablau sydd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Mae'r categorïau a ddefnyddir yn y datganiad hwn yn cyd-fynd â'r categorïau a ddefnyddir gan ganllawiau JCQ ar gyfer Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.

Mae ceisiadau am bapurau wedi'u haddasu yn cael eu prosesu gan y cyrff dyfarnu sy'n cynhyrchu'r papurau hefyd. Mae categorïau eraill o bapurau wedi'u haddasu – er enghraifft, papurau maint A3 wedi'u chwyddo sydd heb eu haddasu yn cael eu

cynhyrchu gan ganolfannau gyda chaniatâd y corff dyfarnu, drwy agor y papur safonol awr cyn i'r arholiad ddechrau i'w gopïo a'i chwyddo.

Ffynhonnell Data

Mae'r JCQ yn anfon data Cymwysterau Cymru ar drefniadau mynediad o Drefniadau Mynediad Ar-lein. Mae cyrff dyfarnu yn cyflwyno data ar nifer y papurau wedi'u haddasu a gynhyrchir ar gyfer cyfres yr haf. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y mae'r trefniadau mynediad a'r papurau wedi'u haddasu, waeth beth fo'r math o ganolfan. Mae'r datganiad hwn yn cwmpasu tueddiadau mewn trefniant mynediad cymeradwy a nifer y papurau wedi'u haddasu a gafodd eu cynhyrchu dros amser ac yn darparu dadansoddiadau yn ôl math o drefniant/papur wedi'i addasu.

Cyfyngiadau'r data

Mae data wedi'i gasglu ar adeg briodol pan fydd yn weddol gyflawn, yn unol â'n Hamserlen Gofnodi. Er bod Cymwysterau Cymru yn disgwyl i gyrff dyfarnu ddarparu data cywir i ni, ni allwn warantu bod yr wybodaeth a roddir yn gywir. Rydyn ni'n cymharu'r data dros amser i wirio am unrhyw faterion neu anghysonderau systemig ac yn ymgysylltu â chyrff dyfarnu i ddilysu'r data.

O 2017/18 ymlaen, mae cyrff dyfarnu wedi bod yn cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid dehongli cymariaethau i ddata hanesyddol Ofqual yn ofalus.

Amdanom ni a'n hystadegau

Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yng Nghymru.

Mae Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 yn ein henwi fel un o'r cyrff o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007. Cyhoeddir y datganiad hwn fel ystadegau swyddogol, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Sicrhau ansawdd, talgrynnu a chyfrinachedd

Mae manylion sut rydyn ni'n sicrhau ansawdd y data hwn yn cael eu cynnwys yn ein Datganiad Interim am Ansawdd Ystadegol a Sicrhau Ansawdd Ffynonellau Data Gweinyddol. Mae data hanesyddol wedi bod yn destun gweithdrefnau sicrhau ansawdd Ofqual.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad yw'r ystadegau'n cael eu hystyried yn addas i'w pwrpas.

Diwygiadau

Ar ôl ei gyhoeddi, nid yw'r data hwn fel arfer yn destun adolygu, er y gellir diwygio datganiadau dilynol i fewnosod data hwyr neu gywiro gwall. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Polisi Diwygiadau a Chywiriadau.

Talgrynnu a Chyfrinachedd

Yn unol â Pholisi Allbynnau Ystadegol Cymwysterau Cymru, mae ffigyrau llai na 5 ond yn fwy na 0 yn cael eu disodli gan *. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw data'n datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ffigyrau ar gyfer nifer y tystysgrifau a gyhoeddwyd yn talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae pob canran yn seiliedig ar ffigyrau heb eu talgrynnu. Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu'n annibynnol ac felly efallai na fyddant yn cyfateb â'r cyfanswm.

Gwybodaeth ddefnyddiol

Mae geirfa ystadegol ar gael ar ein gwefan i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Mae cofrestr Cymwysterau Cymru yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys ar gyfer arian cyhoeddus yng Nghymru.

Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r un hwn, gan gynnwys:

- Y datganiad 'Canlyniadau arholiadau', a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- Ein datganiad 'Ystyriaeth arbennig ar gyfer TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yng Nghymru' .
- Datganiad 'Trefniadau mynediad ar gyfer TGAU a Safon Uwch' Ofqual.

Defnyddwyr yr ystadegau a'r adborth hyn

Mae Cymwysterau Cymru'n defnyddio'r ystadegau hyn i fonitro'r system gymwysterau. Mae'r ystadegau hyn hefyd yn debygol o fod o ddiddordeb i Ofqual a rheoleiddwyr eraill, cyrff dyfarnu, canolfannau (ysgolion a cholegau) a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu unrhyw adborth ar yr ystadegau hyn ac mae modd eu hanfon drwy e-bost at ystadegau@cymwysteraucymru.org.

© (2022) Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu ar yr amod bod cyfeiriad yn cael ei wneud at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.